2023/24

# Polisi Derbyn i Ysgolion



monmouthshire
sir fynwy


Jones, Matt

Cyngor Sir Fynwy


Chwefror 2022

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD ..... 2

*1.1 Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig* ..... 2

*1.2 Y broses ymgynghori* ..... 2

*1.3 Niferoedd Derbyn* ..... 3

2. DARPARIAETH ADDYSG YN SIR FYNWY ..... 4

*2.1 Addysg Feithrin* ..... 4

*2.2 Darpariaeth Ysgol Gynradd (4-11)* ..... 4

*2.3 Addysg Gynradd Arbennig* ..... 4

*2.4 Darpariaeth Addysg Uwchradd (11-19)* ..... 5

3. CYFRIFOLDEB RHIANT ..... 5

4. MYNEGI DEWIS AR GYFER YSGOL NEU FEITHRIN CYMUNEDOL/ WIRFODDOL A REOLIR YN SIR FYNWY ..... 5

*4.1 Amserlen ar gyfer y Cylch Derbyn Arferol* ..... 6

*4.2 Dosbarthu'r ffurflenni cais* ..... 7

5. DYRANNU LLEOEDD YSGOLION MEITHRIN ..... 7

*5.1 Meini Prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - Meithrin* ..... 8

6. DYRANNU LLEOEDD YSGOL - YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL AC A REOLIR YN WIRFODDOL ..... 9

*6.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - ysgolion cymunedol ac a reolir yn wirfoddol* ..... 9

7. DYRANNU LLEOEDD YSGOL - YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL ..... 12

*7.1 Meini prawf os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - ysgolion uwchradd cymunedol* ..... 12

8. Y BROSES AR GYFER DILYSU CEISIADAU ..... 14

*8.1 Dilysu Cyfeiriadau Cartref* ..... 14

*8.2 Rhieni sydd wrthi'n symud tŷ* ..... 14

*8.3 Newid annisgwyl mewn cyfeiriad cartref* ..... 15

*8.4 Rhannu preswyliaeth* ..... 15

*8.5 Ceisiadau ar sail anghenion meddygol* ..... 15

*8.6 Brodyr a Chwiorydd* ..... 16

*8.7 Dalgylchoedd ysgol* ..... 16

*8.8 Ysgolion Bwydo* ..... 16

*8.9 Pellter rhwng y cartref a'r ysgol* 17
9. DERBYN PLANT GENEDIGAETH LUOSOG (E.E. GEFEILLIAID NEU DRIPLEDI) 18
10. PLANT SY'N DERBYN GOFAL 18
11. PLANT PERSONÉL GWASANAETHAU'R DU 19
12. GWEISION Y GORON 19
13. PLANT SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR 19
14. MYNEDIAD WEDI'I OHIRIO I YSGOL GYNRADD 20
15. GENEDIGAETHAU YN NHYMOR YR HAF 20
16. TREFNIADAU AR GYFER CEISIADAU HWYR 20
17. HYSBYSU RHIENI 22
18. DERBYN LLE YSGOL 23
19. DERBYN I GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL – MEDI 2023 23
20. TROSGLWYDDO O FEWN BLWYDDYN (DERBYNIADAU TU ALLAN I'R CYLCH DERBYN ARFEROL) 23
21. CAIS AM DDERBYN TU ALLAN I GRŴP BLWYDDYN CRONOLEGOL 24
22. GWRTHOD DERBYN I'R YSGOL A FFEFRIR 25
23. RHESTRAU AROS 25
24. APELIADAU 26
*24.1 Amserlen ar gyfer clywed apeliadau* 27
25. CYNLLUN MAINT DOSBARTH BABANOD 27
*25.1 Eithriadau i'r rheoliadau maint dosbarth babanod* 27
26. TERFYN MAINT DOSBARTH CYFNOD ALLWEDDOL 2 28
Atodiad A – Cynllun Derbyn Cydlynol Ysgolion Cynradd 29
Atodiad B – Cynllun Derbyn Cydlynol Ysgolion Uwchradd 32
Atodiad C – Awdurdodau Derbyn 34
Atodiad Ch - Niferoedd Derbyn ar gyfer Ysgolion 35

# 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion (2013) yn rhoi hawl i rieni fynegi dewis i'w plentyn gael ei dderbyn i unrhyw ysgol a gynhelir gyda chyllid cyhoeddus. Mae polisi derbyn yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Derbyn i Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion Gorffennaf 2013.

Mae'r polisi yn ei le i ddarparu ar gyfer y dilynol:

i) Ceisiadau Cylch Derbyn

- Y broses gais i'w dilyn ar gyfer plant sy'n gymwys i gychwyn mewn Ysgol Feithrin
- Y broses gais i'w dilyn ar gyfer plant sy'n gymwys i gychwyn mewn Ysgol Gynradd
- Y broses gais i'w dilyn ar gyfer plant sy'n gymwys i drosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd

ii) Trosglwyddiadau o fewn blwyddyn rhwng Ysgolion

Y broses gais sydd i'w dilyn ar gyfer plant sydd eisoes o oedran ysgol, ond yn dymuno trosglwyddo o un ysgol i'r llall.

## *1.1 Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig*

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol ymgynghori'n flynyddol ar ei drefniadau derbyn. Mae cynnwys y polisi hwn yn berthnasol i'w weithredu ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24. Ni chynigir unrhyw newid i'r trefniadau derbyn presennol.

## *1.2 Y broses ymgynghori*

Yn unol â Chod Ymarfer y Cod Derbyn i Ysgolion (2013) mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori'n flynyddol ar ei drefniadau derbyn, gan geisio lle'n bosibl i adlewyrchu amserlenni cylch derbyn awdurdodau derbyn cyfagos.

Bydd y trefniadau derbyn cydlynol yn penderfynu ar ba ddyddiad yr anfonir ffurflenni cais at rieni yn ogystal â chyhoeddi dyddiad cau a gytunwyd. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau nad yw'r amserlen yma rhwng dosbarthu a'r dyddiad cau yn ddim llai na chwe wythnos.

Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng 1 Medi a 1 Mawrth yn dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol pan ddaw'r trefniadau i rym. Caiff y trefniadau wedyn eu cadarnhau erbyn 15 Ebrill a'u cyhoeddi o fewn 14 dyddiad o'r diwrnod hwn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau y rhoddir yr wybodaeth ddilynol yn ystod y broses ymgynghori:

i) Nifer derbyn ar gyfer pob ysgol
ii) Gweithdrefnau cais a'r amserlen ar gyfer y broses dderbyn
iii) Y meini prawf i'w defnyddio os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gyfer ysgol
iv) Trefniadau ar gyfer rhestrau aros a sut y gweithredant
v) Trefniadau ar gyfer prosesu ceisiadau hwyr
vi) Manylion sut yr hysbysir rhieni am benderfyniad ar eu cais, yn ogystal â gweithdrefnau apêl os bydd eu cais yn aflwyddiannus.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori gyda'r partïon dilynol ar ei drefniadau ar gyfer derbyn:

| | |
|---|---|
| Corff llywodraethu'r Ysgolion perthnasol | Holl gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol yn Sir Fynwy |
| Pob Awdurdod Lleol cyfagos yn yr ardal | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Cyngor Dinas Casnewydd<br>Cyngor Sir Powys<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Cyngor Sir Swydd Caerloyw<br>Cyngor Sir Swydd Henffordd |
| Awdurdodau Derbyn ar gyfer pob ysgol arall yn yr ardal | Awdurdodau derbyn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn yr ardal<br>Ysgol Sylfaen Brynmawr<br>Ysgol Gatholig Alban Sant<br>Ysgol Gatholig Rufeinig Sant Joseff |
| Yn achos ysgolion gyda chymeriad crefyddol, y cyrff neu berson sy'n cynrychioli'r grefydd neu enwad crefyddol dan sylw | Cyfarwyddwr Esgobaethol, yr Eglwys yng Nghymru<br>Cyfarwyddwr Esgobaethol, yr Eglwys Gatholig |

Gallai ymgynghoreion ymateb i’r ymgynghoriad hwn drwy e- bost accesstolearning@monmothshire.gov.uk erbyn y dyddiad cau ar **1af Mawrth 2022**

## *1.3 Niferoedd Derbyn*

Cyn yr ymgynghoriad yma, caiff y niferoedd derbyn ar gyfer pob ysgol eu penderfynu ac maent yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad yma. Mae'r niferoedd derbyn ar gyfer yr ysgolion yn deillio o gapasiti ffisegol yr ysgol a gaiff ei gyfrif yn unol â dogfen Llywodraeth Cymru 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'.

## 2. DARPARIAETH ADDYSG YN SIR FYNWY

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig y ddarpariaeth ganlynol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n dymuno cael eu haddysgu yn y Sir:

### *2.1 Addysg Feithrin*

Mae gan yr Awdurdod Lleol un ar ddeg uned feithrin yn gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd. Mae'r Awdurdod yn cynnal y meithrinfeydd hyn sy'n darparu addysg blynyddoedd cynnar ran-amser am ddim ar gyfer disgyblion o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, os oes lleoedd ar gael. Mae Sir Fynwy hefyd yn cefnogi llawer o gylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd preifat, ysgolion cyn paratoi, grwpiau chwarae a chylchoedd meithrin. Mae'r gosodiadau hyn yn ddarparwyr cymeradwy ar gyfer addysg blynyddoedd cynnar.

### *2.2 Darpariaeth Ysgol Gynradd (4-11)*

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig nifer o sefydliadau addysgol ar lefel Gynradd:

Cynradd Cymunedol (Saesneg) - 20
Cynradd Cymunedol (Cymraeg) - 2
Cynradd Eglwys yng Nghymru a Rheolir yn Wirfoddol - 2
Cynradd Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir yn Wirfoddol - 3
Cynradd Catholig a Gynorthwyir yn Wirfoddol - 2

Yr Awdurdod Lleol hefyd yw'r awdurdod sy'n derbyn ar gyfer pob ysgol gynradd gymunedol (Saesneg a Chymraeg) a'r Ysgolion a Rheolir yn Wirfoddol o fewn Sir Fynwy, ac yn gyfrifol am y trefniadau derbyn ym mhob un o'r ysgolion hyn.

Mae cyrff llywodraethu'r 5 Ysgol a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn Sir Fynwy yn gyfrifol am yr holl drefniadau derbyn o fewn eu hysgolion.

### *2.3 Addysg Gynradd Arbennig*

Mae gan Ysgol Gynradd Overmonnow (Trefynwy), Ysgol Gynradd Pembroke (Cas-gwent) ac Ysgol Gynradd Deri View (Y Fenni) unedau anghenion addysgol ychwanegol i ddarparu ar gyfer y plant hynny na all eu hanghenion gael eu cyflawni mewn addysg brif ffrwd.

Caiff derbyn i'r gosodiadau hyn ei benderfynu drwy Ddatganiad Anghenion Addysgol y plentyn.

## *2.4 Darpariaeth Addysg Uwchradd (11-19)*

Mae pob ysgol uwchradd brif ffrwd yn Sir Fynwy yn ysgolion cyfun cymysg ac yn gwasanaethu myfyrwyr 11-19 oed. Maent wedi eu lleoli'n agos at y pedair prif dref yn Sir Fynwy.

## *2.5 Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg*

Mae Sir Fynwy wedi datblygu cysylltiadau agos gydag awdurdodau cyfagos, yn enwedig â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gydag Ysgol Gyfun Gwynllyw a Chyngor Dinas Casnewydd gydag Ysgol Gyfun Gwent Iscoed, er mwyn sicrhau fod addysg cyfrwng Cymraeg ar gael ar lefel uwchradd i blant o fewn ein Sir.

## 3. CYFRIFOLDEB RHIANT

Dim ond unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn a enwir sy'n gallu gwneud cais a bydd gofyn iddynt wneud datganiad i'r perwyl hwn fel rhan o'r broses ymgeisio.

Disgwylir y bydd rhieni'n cytuno ar ddewisiadau ysgol ar gyfer plentyn cyn gwneud cais. Nid yw'r Awdurdod Lleol mewn sefyllfa i ymyrryd mewn anghydfodau rhwng rhieni ynghylch ceisiadau ysgol a bydd yn gofyn i'r rhain gael eu datrys yn breifat.

Os na all rhieni gytuno i gais am Ysgol a ffefrir, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu bwrw ymlaen â'r cais nes bod cytundeb cydfuddiannol wedi'i wneud, neu fel arall mae achos cyfreithiol yn penderfynu pa riant ddylai wneud y cais am le yn yr ysgol.

## 4. MYNEGI DEWIS AR GYFER YSGOL NEU FEITHRIN CYMUNEDOL/ WIRFODDOL A REOLIR YN SIR FYNWY

Yn unol â chod ymarfer Derbyn i Ysgolion (2013), rhaid i rieni gwblhau ffurflen gais er mwyn cael lle meithrin / ysgol. Bydd gan rieni / gofalwyr y cyfle i gwblhau cais ar-lein neu fel arall trwy gais papur. Dim ond gan y person/personau sy’n gyfrifol am y plentyn dan sylw y bydd yr awdurdod lleol yn derbyn cais.

Gwahoddir pob rhiant i fynegi dewis ar ffurflen gais gyffredin, waeth beth yw statws yr ysgolion y maent am wneud cais amdanynt ac a yw'r ysgol yn / allan o'r sir. Bydd y ffurflen yn rhoi cyfle i rieni roi rhesymau am eu dewis. Dylid anfon yr holl ffurflenni wedi'u llenwi'n uniongyrchol i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr. **Eithriad i hyn yw os yw rhieni yn dymuno gwneud cais am Ysgol o fewn ffiniau Cyngor Dinas Casnewydd - mewn amgylchiadau o'r fath mae'n ofynnol i'r rhiant wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd o dan eu trefniadau derbyn.**

Er y gall awdurdodau derbyn ysgolion unigol (a Gynorthwyir yn Wirfoddol) ofyn i chi gwblhau eu ffurflenni derbyn eu hunain, rhaid i bob ymgeisydd gwblhau "Ffurflen Gais Gyffredin" hefyd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu cynllun dewis cyfartal, sy'n golygu y caiff pob dewis eu hystyried yn gyfartal yn unol â meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, ac nid ar sail y drefn y cânt eu rhestru ar y cais. Os gellir diwallu mwy na un dewis, cynigir y dewis uchaf a nodir ar y ffurflen gais.

## *4.1 Amserlen ar gyfer y Cylch Derbyn Arferol*

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori ac yn cytuno ar amserlen ar gyfer derbyn y Cylch Derbyn yn flynyddol. Bydd hyn yn amlinellu'r dyddiad erbyn pryd y bydd ffurflenni cais ar gael i rieni, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, yn ogystal â'r dyddiad pan fydd rhieni'n cael gwybod am benderfyniad ar eu cais.

Y dyddiadau ar gyfer Cylch Derbyn Medi 2023 fydd:

| Cyfnod Derbyn | Pecynnau cais ar gael i rieni | Dyddiad Cau | Cyfnod Dyrannu Awdurdod Lleol | Rhieni wedi'u hysbysu erbyn |
|---|---|---|---|---|
| Cynradd i Uwchradd | 21ain Medi 2022 | 23ain Tachwedd 2022 am 17:00 | 24.11.22 – 28.02.23 | 1af Mawrth 2023 |
| Derbyn | 2ail Tachwedd 2022 | 11eg Ionawr 2023 am 17:00 | 12.01.23 – 16.04.23 | 17eg Ebrill 2023 |
| Meithrin | 8fed Gorffennaf 2022 | 16eg Medi 2022 am 17:00 | 17.09.22 – 03.11.22 | 4ydd Tachwedd 2022 (y rhai a dderbynnir ym Medi 2023)<br><br>4ydd Tachwedd 2022 (Lle Codi'n 3 Oed yn gymwys ar gyfer Ionawr 2023)<br><br>6ed Mawrth 2023 (Lle Codi'n 3 Oed yn gymwys ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gyfer Ebrill 2023) |

## 4.2 *Dosbarthu'r ffurflenni cais*

Meithrinfeydd

Mae'n bosib i rieni i wneud cais i sicrhau lle mewn meithrinfa Awdurdod Lleol yn unol gyda'r dyddiadau sydd wedi eu manylu uchod. Bydd rhieni yn cael y cyfle i wneud cais drwy ein system ymgeisio ar-lein neu mae modd gwneud cais papur o'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr.

Yn ogystal â'r uchod, mae rhieni / gofalwyr yn medru gwneud cais i sicrhau lle yn un o'n lleoliadau/unedau nas cynhelir ac mae eu manylion ar gael yma www.monfis.org.uk. Yn yr achos hwn, bydd angen gwneud cais yn uniongyrchol i'r darparwr/darparwyr.

Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd

Bydd yr Awdurdod Lleol yn dosbarthu pecynnau cais yn uniongyrchol i gyfeiriadau cartref ar y dyddiadau a gyhoeddir uchod. Caiff rhieni/gofalwyr gyfle ddewis gwneud cais ar-lein neu gwblhau ffurflen bapur. Caiff manylion sut i wneud cais ar-lein eu cynnwys yn y pecyn cais a gaiff ei gylchredeg i rieni.

Er bod yr Awdurdod yn ymdrechu i gasglu manylion y rhieni/gofalwyr hynny sydd â phlant sy'n gymwys i gael eu derbyn i'r ysgol, mae'n parhau'n gyfrifoldeb y rhiant/gofalwr i gael pecyn cais i wneud cais am le ysgol o fewn yr amserlenni gofynnol.

## 5. DYRANNU LLEOEDD YSGOLION MEITHRIN

Bydd plant yn cael eu derbyn i'r feithrinfa ym mis Medi'r flwyddyn academaidd maent yn dod yn bedair oed. Gall y lle hwn fod mewn ysgol neu mewn lleoliad nas cynhelir, a all fod yn gylch chwarae neu feithrinfa ddydd breifat. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am fynediad i ysgolion meithrin cymunedol ond ar gyfer lle meithrin mewn ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol neu leoliad nas cynhelir, dylid gwneud ymholiadau yn uniongyrchol i'r ysgol neu'r darparwr.

Nid yw'r awdurdod lleol yn gallu ystyried ceisiadau meithrin am ran yn unig o wythnos ysgol ac felly cynigir mynediad i ysgolion meithrin am sesiwn hanner diwrnod, naill ai bore neu brynhawn, 5 diwrnod yr wythnos. Mae ysgolion yn disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa ymgymryd â'r holl sesiynau sydd ar gael iddynt. Os nad yw rhieni yn dymuno i'w plentyn fynychu pob un o'r pum sesiwn bob

wythnos, efallai y byddai'n well ceisio lle mewn lleoliad nas cynhelir sy'n gallu bodloni'r trefniadau hyblyg hyn yn haws.

Unwaith y dyrennir lle meithrinfa ym mis Medi, gall plant a anwyd rhwng 1 Medi a 31 Mawrth yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, cael cynnig cychwyn cynnar os yw lleoedd ar gael. Cyfeirir at hyn yn gyffredin fel lle **Lle Codi'n 3 Oed**. Nid yw'r plant a anwyd rhwng 1 Ebrill a 31 Awst yn gymwys ar gyfer Lle Codi'n 3 Oed.

Os yw Lle Codi'n 3 Oed ar gael, bydd disgyblion cymwys yn cael cynnig cynnar yn y feithrinfa a ddyrannwyd iddynt:

- Lle Codi'n 3 Oed ar 5 Tachwedd 2022 ar gyfer Ionawr 2022
- Lle Codi'n 3 Oed ar 7 Mawrth 2020 ar gyfer Ebrill 2022

## 5.1 *Meini Prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - Meithrin*

Polisi'r Cyngor yw cwrdd â dewis rhieni os yw'n bosibl; fodd bynnag mewn rhai achosion efallai y bydd mwy o geisiadau am leoliad penodol nag o leoedd ar gael. Wrth benderfynu pa blant y dylid eu derbyn i'r feithrinfa, bydd y Cyngor yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio canlynol yn nhrefn blaenoriaeth.

| **Safle Blaenoriaeth** | **Maen Prawf** |
|---|---|
| ***Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Lleol (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)*** | |
| 1. | Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal yr Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-4 isod. **(Gweler adran 10.0)** |
| 2. | Rhoddir blaenoriaeth i seiliau meddygol neu gymdeithasol a amlygir gan asiantaethau priodol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 3-4 isod. **(Gweler adran 8.5)** |
| 3. | Bydd plant sydd â brawd neu chwaer berthnasol sy'n mynychu'r feithrinfa a ffefrir (nid y brif ysgol) ar adeg derbyn, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cyflawni pwynt 4 isod. **(Gweler adran 8.6)** |
| | Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa fod mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r ysgol a ffefrir, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf. (Gweler adran 8.9) |

**Noder:**

1) Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod lle meithrin
2) Nid yw disgyblion oed meithrin yn gymwys i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol yn rhad ac am ddim

3) Pennaeth yr ysgol berthnasol sy’n gyfrifol am ddyrannu sesiynau bore a phrynhawn.
4) Efallai y bydd dyddiad cychwyn plentyn yn y feithrinfa yn cael ei ohirio os nad ydynt wedi dysgu mynd i'r toiled. Gellir trafod hyn gyda'r feithrinfa unwaith y bydd lle wedi'i ddyrannu i'r plentyn.
5) Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn gwarantu mynediad nac yn rhoi unrhyw fantais i gais y plentyn am y Dosbarth Derbyn. Rhaid i rieni wneud cais ar wahân ar gyfer derbyn i'r Dosbarth Derbyn ar yr adeg briodol

# 6. DYRANNU LLEOEDD YSGOL - YSGOLION CYNRADD CYMUNEDOL AC A REOLIR YN WIRFODDOL

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol gynradd / babanod a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd y bydd ef/hi yn troi'n 5 mlwydd oed. Mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau bod rhieni yn gallu gohirio derbyn eu plentyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed; fodd bynnag, Polisi'r Awdurdod Lleol yw y bydd y plentyn yn parhau i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Wrth ystyried derbyn i mewn i'r grŵp blwyddyn Derbyn fel rhan o'r cylch derbyn, dylai rhieni fod yn ymwybodol nad yw presenoldeb mewn darpariaeth feithrin o fewn yr ysgol a ffefrir yn eithrio'r angen i rieni wneud cais am le yn y Dosbarth Derbyn. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn gallu gwarantu bod plant o fewn y Feithrinfa yn cael lle yn y Dosbarth Derbyn.

Pan fydd nifer y ceisiadau a dderbynnir ar gyfer yr ysgol a ffefrir yn llai neu'n gyfartal â nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd pob plentyn yn cael ei dderbyn, gan dybio y gall yr ysgol dan sylw fodloni anghenion y plant dan sylw.

Fodd bynnag, pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol, h.y. pan mae'r ceisiadau'n uwch na'r nifer derbyn, bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu defnyddio i ddewis pa blant sydd i gael lleoedd yn yr ysgol dan sylw. Ar gyfer plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, rhaid i'r Awdurdod dderbyn y plentyn dan sylw i'r Ysgol a bennir ar eu datganiad.

Wrth weithredu’r meini prawf hynny i benderfynu pwy sydd i gael lleoedd, bydd pob dewis rhiant yn cael ei ystyried yn gyfartal a'i ddyrannu yn unol â'r meini prawf isod. Cynigir yr ysgol flaenoriaeth uchaf, fel y'i rhestrir ar y ffurflen gais, os gellir cyflawni un neu ragor o ddewisiadau.

## *6.1 Meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - ysgolion cymunedol ac a reolir yn wirfoddol*

Wrth ystyried y mannau sydd yn dal i fod ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio i benderfynu ar y plant y mae lleoedd i'w cynnig:

| Safle blaenoriaeth | Meini prawf |
| --- | --- |

| ***Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)*** | |
|---|---|
| 1. | Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd o dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal yr Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-8 isod. **(gweler adran 10.0)** |
| 2. | Rhoddir blaenoriaeth I blant ag amgylchiadau meddygol eithriadol dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 3-8 isod **(gweler adran 8.5)** |
| 3. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a ffefrir sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 4-8 isod **(gweler adrannau 8.6 a 8.7)** |
| 4. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir, ond sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol a ffefrir oherwydd eu bod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn ysgol eu dalgylch, dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 5-8 isod **(gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 8.6)** |
| 5. | Bydd plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond sydd â brodyr a chwiorydd presennol perthnasol wedi'u cofrestru yn yr ysgol ddewisol erbyn mis Medi 2019, a lle bydd y brawd neu chwaer hŷn yn parhau i fod ar y gofrestr pan fydd yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cwrdd â'r pwyntiau 6 -8 isod (**gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 8.6**) |
| 6. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 7-8 isod **(gweler adran 8.6)** |
| 7. | Plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir, sydd â brawd neu chwaer berthnasol (a fydd yn mynychu'r ysgol a ffefrir adeg eu derbyn) nad ydynt yn cwrdd â meini prawf pwyntiau 4 a 5 uchod **(gweler adran 8.7)** |
| 8. | Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r ysgol a ffefrir, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf. |

Fel eglurhad, bydd gweithredu'r meini prawf uchod yn arwain at benderfyniad terfynol dyraniad lle'n cael ei wneud ar bellter. Felly, er enghraifft, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael ar ôl cymhwyso pwynt 6 uchod, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r plant hynny y mae eu cyfeiriad cartref wedi'i nodi fel yn agosach at yr ysgol a ffefrir.

**Nodiadau Esboniadol**

Safle blaenoriaeth 4 – Dim ond os yw rhieni wedi bod yn aflwyddiannus yn cael lle i'w plentyn yn ysgol eu dalgylch, ac sydd fel canlyniad yn mynychu ysgol arall gyda brawd neu chwaer iau yn gymwys i fynychu, y byddai'r maen prawf hwn yn weithredol.

Safle blaenoriaeth 5 - Byddai'r maen prawf hwn yn berthnasol ar gyfer brodyr a chwiorydd presennol yn unig, wedi'u gosod ar y gofrestr yn yr ysgol a ffefrir erbyn 1af Medi 2019 (gan gynnwys y sawl aeth i'r Derbyn yn 2019) gyda brodyr a chwiorydd iau yn gymwys i ddechrau yn yr Ysgol Gynradd (Derbyn) ym mis Medi 2023 a mis Medi 2024.

# 7. DYRANNU LLEOEDD YSGOL - YSGOLION UWCHRADD CYMUNEDOL

Nid yw presenoldeb mewn Ysgol Gynradd neu Iau yn gwarantu y bydd lle ar gael i'ch plentyn yn yr ysgol Gyfun sy'n cael ei bwydo ganddynt. Er y gwneir pob ymdrech i ddarparu ar gyfer dewis rhieni, lle mae nifer y ceisiadau am ysgol yn fwy na'r nifer o leoedd sydd ar gael, bydd y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn cael eu gweithredu.

Pan fydd nifer y ceisiadau a dderbynnir ar gyfer yr ysgol a ffefrir yn llai neu'n gyfartal â nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd pob plentyn yn cael ei dderbyn, gan dybio y gall yr ysgol dan sylw fodloni anghenion y plant dan sylw.

Fodd bynnag, pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgol, h.y. pan mae'r ceisiadau'n uwch na'r nifer derbyn, bydd y meini prawf perthnasol yn cael eu defnyddio i ddewis pa blant sydd i gael lleoedd yn yr ysgol dan sylw. Ar gyfer plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, rhaid i'r Awdurdod dderbyn y plentyn dan sylw i'r Ysgol a bennir ar eu datganiad.

Wrth weithredu'r meini prawf hyn i benderfynu pwy sydd i gael lleoedd, bydd pob dewis rhiant yn cael ei ystyried yn gyfartal a'i ddyrannu yn unol â'r meini prawf isod. Cynigir yr ysgol flaenoriaeth uchaf, fel y'i rhestrir ar y ffurflen gais, os gellir cyflawni un neu ragor o ddewisiadau.

## *7.1 Meini prawf os oes mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael - ysgolion uwchradd cymunedol*

| Safle blaenoriaeth | Meini prawf |
|---|---|
| ***Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)*** | |
| 1. | Bydd plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol h.y. plant sydd o dan ofal neu sydd wedi bod o dan ofal Awdurdod Lleol yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-9 isod. **(gweler adran 10.0)** |
| 2. | Rhoddir blaenoriaeth I blant ag amgylchiadau meddygol eithriadol dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 3-9 isod **(gweler adran 8.5)** |
| 3. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol a ffefrir sydd â brodyr neu chwiorydd perthnasol dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 4-9 isod **(gweler adrannau 8.6 a 8.7)** |
| 4. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir, ond sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol a ffefrir oherwydd eu bod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn ysgol eu dalgylch, dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 5-9 isod **(gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 8.6)** |

| | |
|---|---|
| 5. | Bydd plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch, ond sydd â brodyr a chwiorydd presennol perthnasol wedi'u cofrestru yn yr ysgol ddewisol erbyn mis Medi 2019, a lle bydd y brawd neu chwaer hŷn yn parhau i fod ar y gofrestr pan fydd yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cwrdd â'r pwyntiau 6 -8 isod (**gweler y nodiadau esboniadol isod, ac adran 7.6)** |
| 6. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 7-9 isod **(gweler adran 8.7)** |
| 7. | Rhoddir blaenoriaeth i'r plant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ar gyfer yr ysgol a ffefrir, sydd â brawd neu chwaer berthnasol (a fydd yn mynychu'r ysgol a ffefrir adeg eu derbyn) nad ydynt yn cwrdd â meini prawf pwyntiau 4 a 5 uchod, dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 8-9 **(gweler adran 8.6)** |
| 8. | Rhoddir blaenoriaeth i blant sydd ar y gofrestr mewn ysgol gynradd sydd wedi ei dynodi i fod yn ysgol fwydo ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir dros y rhai sy'n bodloni pwynt 9 **(gweler adran 8.8)** |
| 9. | Ar ôl gweithredu'r categorïau uchod, neu os yw'r ysgol yn parhau i fod mewn sefyllfa o fod â mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd i'r ysgol a ffefrir, wedi'i fesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf. (gweler adran 8.9). |

Fel eglurhad, bydd gweithredu'r meini prawf uchod yn arwain at benderfyniad terfynol dyraniad lle'n cael ei wneud ar bellter. Felly, er enghraifft, os oes mwy o geisiadau na lleoedd ar gael ar ôl gweithredu pwynt 6 uchod, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i'r plant hynny y mae eu cyfeiriad cartref wedi'i nodi fel yn agosach at yr ysgol a ffefrir.

**<u>Nodiadau Esboniadol</u>**

<u>Safle blaenoriaeth 4 -</u> Dim ond os yw rhieni wedi bod yn aflwyddiannus yn cael lle i'w plentyn yn ysgol eu dalgylch, ac sydd fel canlyniad yn mynychu ysgol arall gyda brawd neu chwaer iau yn gymwys i fynychu, y byddai'r maen prawf hwn yn weithredol.

<u>Safle blaenoriaeth 5 -</u> Byddai'r maen prawf hwn yn berthnasol ar gyfer brodyr a chwiorydd presennol yn unig, wedi'u gosod ar y gofrestr yn yr ysgol a ffefrir erbyn 1af Medi 2019 ( yn cynnwys y rhai a aeth i Flwyddyn 7 yn  2019), gyda brodyr a chwiorydd iau yn gymwys i drosglwyddo o'r Ysgol Uwchradd i'r Ysgol Gynradd ym Medi 2023 a mis Medi 2024.

# 8. Y BROSES AR GYFER DILYSU CEISIADAU

Bydd yr awdurdod lleol yn cynnal gwiriadau trylwyr yn erbyn y wybodaeth a ddatganwyd ar gais cais am dderbyniad ysgol / meithrin.

## *8.1 Dilysu Cyfeiriadau Cartref*

Mae'n rhaid i Rieni/Gofalwyr gyflwyno eu cais yn defnyddio cyfeiriad cartref parhaol eu plentyn.  Mae angen i Rieni/Gofalwyr roi eu cyfeirnod Treth Gyngor ar ffurflen gais derbyn eu plant.    Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r wybodaeth yma i ddilysu bod y cyfeiriad a roddir ar y ffurflen cais yr un â'r wybodaeth a gedwir ar gronfa ddata Treth Gyngor yr Awdurdod Lleol.

Os nad yw'r wybodaeth a roddir gan y rhiant yr un fath â'r wybodaeth ar gronfa ddata’r dreth gyngor, cynhelir gwiriad pellach gan ddefnyddio'r gofrestr etholiadol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r rhiant os nad yw hyn yn dilysu'r cyfeiriad.

Caiff unrhyw benderfyniad ar gynnig lle ysgol ei seilio ar i'r ymgeisydd fod yn breswylydd yn y cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais, ar y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd.

Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir fod y rhiant/gofalwr wedi symud o'r cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais heb hysbysu'r Awdurdod Lleol, os cynigiwyd lle ar sail cyfeiriad cartref.

## *8.2 Rhieni sydd wrthi’n symud tŷ*

Bydd yn ofynnol i Rieni/Gofalwyr sydd wrthi'n symud tŷ hysbysu'r Awdurdod Lleol **ar adeg gwneud y cais** o ran y symud arfaethedig a chyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad hwn gael ei ystyried.  Tystiolaeth addas fyddai copi o gyfnewid contractau (ar gyfer pryniannau) neu gytundeb tenantiaeth tymor hir (ar gyfer trefniadau rhentu).  Rhaid cyflwyno'r cais a hysbysu ynghylch newid cyfeiriad arfaethedig cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd er mwyn cael ei ystyried fel cais mewn pryd. Bydd methiant i hysbysu'r Awdurdod Lleol am fwriad i symud i gyfeiriad newydd cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd yn arwain at i’r cais gael ei gyfrif fel "cais hwyr" os yw'r newid hwn yn effeithio ar eu sefyllfa o fewn y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd wrthi'n symud ond na all ddilysu'r symud cyn y dyddiad cau sicrhau y cyflwynir eu cais ei gyflwyno cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, a bod y cais yn rhoi gwybodaeth ar y bwriad i symud.  Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr ynglŷn â'r symud arfaethedig er mwyn cael cadarnhad bod preswyliad yn yr eiddo newydd wedi'i sicrhau.  Fodd bynnag, bydd angen i rieni roi tystiolaeth i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau eu bod yn newid cyfeiriad ddim hwyrach na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried at ddibenion dyrannu.

Lle mae'r Awdurdod Lleol yn derbyn tystiolaeth i ddilysu symud tŷ ac yn defnyddio'r cyfeiriad newydd ar gyfer dibenion dyrannu, caiff y cynnig o le ysgol ei seilio ar i'r ymgeisydd a'r plentyn fod yn breswyl yn y cyfeiriad yma adeg mynediad y plentyn i'r ysgol. Gallai unrhyw gynnig o le ysgol gael ei ddileu os canfyddir nad yw'r ymgeisydd yn breswyl yn y cyfeiriad adeg mynediad y plant i'r ysgol.

Gallai unrhyw gynnig o le ysgol/meithrinfa gael ei ddiddymu fel canlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth gyda'r uchod.

## *8.3 Newid annisgwyl mewn cyfeiriad cartref*

Pe byddai rhiant, sydd wedi cyflwyno cais cyn y dyddiad cau a gyhoeddwyd, yn ein hysbysu am newid annisgwyl mewn cyfeiriad a ddigwyddodd ers cyflwyno eu cais, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ar sail ddisgresiwn amgylchiadau'r newid annisgwyl mewn cyfeiriad cyn penderfynu'r cais fel bod yn un hwyr. **Cyfrifoldeb y rhiant yw ein hysbysu am unrhyw amgylchiadau o'r fath all fod angen penderfyniad ar ddisgresiwn.**

Yn anffodus, dim ond os rhoddir hysbysiad a thystiolaeth o newid cyfeiriad ddim mwy na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd y gellir gweithredu disgresiwn o'r fath er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu.

Cyfrifoldeb rhiant yw hysbysu'r Awdurdod Lleol am newid cyfeiriad sy'n digwydd yn ystod y broses gais. Gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiddymu unrhyw gynnig o le ysgol.

## *8.4 Rhannu preswyliaeth*

Os yw preswyliaeth plentyn yn cael ei rannu rhwng dau riant, y cyfeiriad lle mae'r plentyn dan sylw yn preswylio am fwyafrif yr wythnos ysgol a ddefnyddir ar gyfer dibenion dyrannu. Dyma'r cyfeiriad y dylid ei ddatgan ar y cais.

Fodd bynnag, os yw'r breswyliaeth gyda'r ddau riant yn ystod yr wythnos ysgol yn gyfartal, y cyfeiriad ar gyfer lle y telir y budd-dal plant a ddefnyddir ar gyfer dibenion dyrannu.

## *8.5 Ceisiadau ar sail anghenion meddygol*

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno i'w cais gael blaenoriaeth ar sail anghenion meddygol eu plentyn roi tystiolaeth i gefnogi eu cais dan y maen prawf yma e.e. adroddiad ymgynghorydd meddygol (a geir gan y rhieni adeg gwneud cais).

Dim ond lle gellir dangos tystiolaeth mai'r ysgol a ffefrir yw'r unig opsiwn hyfyw o gymharu gyda'r ysgolion o gymharu gydag ysgolion eraill y gall yr Awdurdod eu cynnig y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnig blaenoriaeth i geisiadau dan y maen brawf hwn.

## 8.6 Brodyr a Chwiorydd

Ystyrir brodyr a chwiorydd, boed yn hanner, llawn, llys neu'n faeth, yn frodyr a chwiorydd perthnasol lle maent yn byw yn yr un cartref a lle byddant yn dal i gael eu cofrestru yn yr ysgol pan fydd yr ymgeisydd yn gymwys i fynychu.

Ystyrir y meini prawf brodyr a chwiorydd fel yn berthnasol yn y Flwyddyn Derbyn hyd at flwyddyn 12 yn unig. Nid yw derbyn plentyn i ysgol yn gwarantu y bydd lle ar gael yn nes ymlaen i blant eraill yn y teulu.

I gael mynediad i'r Feithrinfa, ystyrir brawd neu chwaer yn berthnasol pan fo'r plentyn dan sylw yn byw yn barhaol yn yr un cyfeiriad ac yn mynychu'r feithrinfa (nid prif ysgol).

## 8.7 Dalgylchoedd ysgol

Er bod preswylio o fewn dalgylch ysgol yn ffurfio elfen o'r meini prawf ar gyfer lle mae mwy o alw nag o leoedd ar gael, nid yw'n gwarantu lleoliad ar y sail yma. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwrthod derbyn mwy na nifer derbyn yr ysgol os nad yw'r cais yn cydymffurfio gyda'r eithriadau a ganiateir a restrir ar dudalen 19.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig blaenoriaeth o fewn ei feini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd i blant y mae eu cyfeiriad cartref o fewn dalgylch yr ysgol. Ystyrir mai cyfeiriad cartref y plentyn yw'r man lle mae'r plentyn yn byw am ran fwyaf yr wythnos ysgol. Mae gwybodaeth yn adran 3.4 am geisiadau lle mae trefniadau rhannu preswyliaeth.

Mae manylion dalgylchoedd ysgolion ar gael ar [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk)

## 8.8 Ysgolion Bwydo

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig blaenoriaeth o fewn meini prawf pan fo mwy o eisiadau nag o leoedd ar gael mewn Ysgol Uwchradd ar gyfer plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd sy'n bwydo i'r ysgol uwchradd a ffefrir.

Penderfynir ar ysgolion bwydo fel ysgolion sydd â threfniadau pontio ffurfiol gydag ysgol uwchradd. Mae manylion yr ysgolion bwydo ar gyfer pob ysgol uwchradd yn Sir Fynwy i'w gweld isod:

<u>Ysgol Uwchradd Brenin Harri VIII</u>
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Cantref
Ysgol Gynradd Deri View
Ysgol Gynradd Gilwern
Ysgol Gynradd Goetre Fawr
Ysgol Gynradd Llan-ffwyst
Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llandeilo Bertholau
Ysgol Gynradd Gatholig Mair Forwyn a Mihangel Sant
Ysgol Gymraeg y Fenni

Ysgol Cil-y-coed
Ysgol Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams
Ysgol Gynradd Castle Park
Ysgol Gynradd Dewstow
Ysgol Gynradd Durand
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr
Ysgol Gynradd Rogiet
Ysgol Gynradd Gwndy
Ysgol Gymraeg y Ffin

Ysgol Cas-gwent
Ysgol Gynradd Pembroke
Ysgol Gynradd y Drenewydd Gelli-farch
Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair
Ysgol Gynradd The Dell
Ysgol Gynradd Thornwell

Ysgol Uwchradd Trefynwy
Ysgol Gynradd Cross Ash
Ysgol Gynradd Kymin View
Ysgol Gynradd Llandogo
Ysgol Gynradd Overmonnow
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Rhaglan
Ysgol Gynradd Tryleg
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston
Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga

## 8.9 Pellter rhwng y cartref a'r ysgol

O fewn pob set o feini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael (adran 4), os yw'r nifer o geisiadau mewn unrhyw un categori yn fwy na'r nifer derbyn a gyhoeddwyd, bydd y flaenoriaeth yn seiliedig ar y rhai sy'n byw agosaf i'r ysgol a ffefrir.

Caiff y pellter rhwng cartref ac ysgol ei fesur fel y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, a benderfynir yn defnyddio llwybrau swyddogol sy'n hysbys i'r Awdurdod Lleol ac asiantaethau priffordd. Mae'r Awdurdod Lleol yn barnu fod llwybr 'ar gael' os gall plentyn, gyda chwmni fel sydd angen, gerdded i'r ysgol yn rhesymol ddiogel.

Wrth asesu ei argaeledd, bydd y cyngor yn dilyn y canllawiau a nodir yn Narpariaeth Statudol Teithio Dysgwyr a Chanllawiau Gweithredol Llywodraeth Cymru Mehefin 2014 a bydd yn edrych ar y risgiau a'r ffactorau diogelwch eraill perthnasol y gallai plentyn, gyda chwmni fel sydd angen, eu cael ar hyd y llwybr a nodwyd (yn cynnwys, er enghraifft, camlesi, afonydd, ffosydd, goleuadau stryd, palmentydd a chyflymder traffig ar hyd ffyrdd, ac yn y blaen).

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyfrif pellter y llwybr yn defnyddio ei feddalwedd Systemau Gwybodaeth Daearyddol (GIS) penodol ei hun, Routefinder a MapInfo

Desktop Solutions. Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb ar gyfer pob ymgeisydd, dyma'r unig ddull mesur a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol.

Caiff man cychwyn y llwybr a gaiff ei gyfrif ei benderfynu fel bod y pwynt rhwydwaith agosaf at brif fynedfa'r cyfeiriad cartref. Caiff prif fynedfa'r cyfeiriad cartref ei benderfynu gan yr Awdurdod Lleol fel lle mae'r eiddo'n derbyn post. Er mwyn eglurdeb, mae'n rhaid i hyn gael ei leoli yn yr eiddo dan sylw. Caiff pwynt gorffen y llwybr a gyfrifir ei benderfynu fel bod y glwyd agored swyddogol agosaf a ddefnyddir gan yr ysgol.

Caiff manylion cyfeiriad ymgeisydd eu penderfynu yn defnyddio cronfa ddata LLPG a Chyfeiriad Arolwg Ordnans.

Lle na all yr Awdurdod Lleol ddynodi llwybr cerdded diogel o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol a ffefrir, caiff y llwybr gyrru byrraf ei ddefnyddio i gyfrif pellteroedd cartref i ysgol.

Lle mae dau neu fwy o ymgeiswyr yn cael eu hystyried ar gyfer y lle olaf sydd ar gael, ac os yw eu cyfrifiadau pellter cartref i ysgol yn union yr un fath, defnyddir olwyn fechan i gynnal asesiad ychwanegol o'r pellter i brif fynedfa y cyfeiriad cartref.

Lle mae dau neu fwy o ymgeiswyr yn cael eu hystyried am y lle olaf sydd ar gael, a bod y cyfeiriadau o fewn yr un adeilad e.e. bloc o fflatiau, defnyddir olwyn fechan i gyfrif y pellter o ddrws blaen y cartref i brif fynedfa gymunol yr eiddo i fynediad agosaf pob fflat, lle'n bosibl.

## 9. DERBYN PLANT GENEDIGAETH LUOSOG (E.E. GEFEILLIAID NEU DRIPLEDI)

Os, wrth weithredu'r meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ar gyfer blwyddyn arferol mynediad (Derbyn a Blwyddyn 7) a bod y plentyn olaf i gael ei dderbyn yn un o enedigaeth luosog yna bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn y brodyr a/neu chwiorydd eraill.

Lle derbynnir ceisiadau genedigaeth luosog ar gyfer grwpiau blwyddyn heblaw'r flwyddyn derbyn arferol, lle mai dim ond un lle sydd ar ôl yn y grŵp blwyddyn perthnasol cyn y cyrhaeddir y nifer derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried pob achos yn unigol cyn penderfynu os eir yn uwch na'r nifer derbyn. Bydd angen rhoi ystyriaeth neilltuol i gapasiti'r ysgol a'r tebygolrwydd o wanhau addysg effeithlon a defnydd effeithiol o adnoddau yn y dewis ysgol.

## 10. PLANT SY'N DERBYN GOFAL

Caiff ceisiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (plant mewn gofal cyhoeddus) [fel y'u diffinnir gan Adran 22 Deddf Plant 1989] flaenoriaeth ar gyfer lleoliad ysgol. Gellir hefyd roi'r flaenoriaeth hon i blant a arferai dderbyn gofal er bod yn rhaid i'r person

sy'n gwneud y cais roi tystiolaeth i gadarnhau'r statws gofal blaenorol, megis Tystysgrif Mabwysiadu.

Lle gwneir ceisiadau ar gyfer grwpiau blwyddyn heblaw blwyddyn arferol derbyn ar gyfer grŵp blwyddyn sydd eisoes wedi cyrraedd ei nifer derbyn, bydd yr Awdurdod Lleol angen tystiolaeth addas pam mai'r ysgol a ffefrir yw'r dewis mwyaf addas o ysgol o gymharu gydag ysgolion eraill sydd ar gael.

## 11. PLANT PERSONÉL GWASANAETHAU'R DU

Mae plant Personél Gwasanaeth y DU sy'n dychwelyd yn destun symudiadau niferus o fewn y DU a thramor yn aml ar rybudd cymharol fyr. O ganlyniad i bersonél gwasanaethau'r DU nad ydynt yn gallu cymryd rhan yn y broses dderbyn arferol, bydd y Cyngor yn ystyried bod y meini prawf preswyl yn bodloni (ac yn dyfarnu blaenoriaeth dalgylch) os yw'r canlynol yn ategol yn y cais, hyd yn oed os nad yw'r teulu'n byw yn Sir Fynwy ar y dyddiad perthnasol.

- Prawf swyddogol o bostio h.y. hysbysiad postio;
- Copi o'r Cerdyn Adnabod Gwasanaeth;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd.

Lle mai'r ysgol sy'n cael ei ffafrio hefyd yw ysgol y dalgylch ond mae'r nifer mynediad eisoes wedi'i fodloni yn y grŵp blwyddyn perthnasol, bydd y Cyngor yn codi'r nifer gaiff eu derbyn.

## 12. GWEISION Y GORON

Mae plant Gweision y Goron y DU (gan gynnwys diplomyddion) yn destun symudiadau aml ac os ydynt yn symud i Sir Fynwy, penderfynir eu bod yn bodloni'r meini prawf preswyl ar gyfer ysgol y dalgylch perthnasol os yw llythyr swyddogol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn ategol gyda'r cais yn datgan:

- Dyddiad dychwelyd pendant;
- Cadarnhad o'r cyfeiriad newydd lle bynnag y bo modd;
- Cadarnhad o statws Gwas y Goron.

## 13. PLANT SIPSIWN, ROMA A THEITHWYR

Mae'n rheidrwydd ar y cyngor, drwy statud, i sicrhau fod pob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn derbyn addysg briodol i'w hoedran, gallu ac unrhyw anghenion addysgol arbennig, ac yn hyrwyddo safonau uchel yn narpariaeth addysg a lles plant. Mae'r oblygiadau hyn yn weithredol i bob plentyn p'un ai ydynt yn breswylwyr parhaol yn yr

ardal ai peidio. Felly caiff ceisiadau a wneir yng nghyswllt teuluoedd o'r fath eu trafod mewn ymgynghoriad gyda *Gwasanaeth Lleiafrifoedd-Ethnig Addysg Gwent* (GEMS) gyda golwg ar roi'r plant hyn mor gyflym ag sydd modd yn yr ysgol briodol agosaf sydd ar gael.

## 14. MYNEDIAD WEDI'I OHIRIO I YSGOL GYNRADD

Bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn plentyn i ysgol gynradd/babanod a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn academaidd pan fydd yn troi'n 5 mlwydd oed. Fodd bynnag, mae'r gofynion cyfreithiol yn cadarnhau y gall rhieni oedi derbyn eu plentyn tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol sicrhau y cedwir unrhyw gynnig o le ysgol ar gyfer rhieni sy'n dymuno i dderbyniad eu plant i'r dosbarth Derbyn gael ei ohirio tan yn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd.

Fodd bynnag, ni all rhiant ohirio mynediad tu hwnt i'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed, na thu hwnt i'r flwyddyn ysgol y gwnaed y cais ar ei gyfer.

## 15. GENEDIGAETHAU YN NHYMOR YR HAF

Yn achos plentyn a anwyd yn ystod tymor yr haf, nid oes gofyniad cyfreithiol arnynt i fynychu'r ysgol tan y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bump oed/y mis Medi ar ôl blwyddyn arferol mynediad i blentyn oedran dosbarth Derbyn. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau fod plant yn dal i ddilyn eu grŵp blwyddyn cronolegol ac felly byddai'r plentyn yn cael ei dderbyn i flwyddyn 1 ac nid y dosbarth Derbyn.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Awdurdod Lleol yn awdurdodi derbyn genedigaeth tymor yr haf i grŵp blwyddyn sydd tu allan i flwyddyn arferol mynediad. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen sylfaen tystiolaeth addas (e.e. adroddiad gan seicolegydd addysg) sy'n awgrymu na all y grŵp blwyddyn cronolegol ddiwallu anghenion y plentyn dan sylw mewn modd addas.

## 16. TREFNIADAU AR GYFER CEISIADAU HWYR

Caiff unrhyw gais a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir, neu geisiadau sy'n parhau'n anghyflawn ar y dyddiad cau eu trin dan y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr.

Bydd newid dewis a dderbynnir gan yr Awdurdod Lleol ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddir yn golygu y caiff y cais ei benderfynu fel un hwyr.

Gallai ceisiadau lle bu newid mewn amgylchiadau sydd ag effaith ar statws y cais o fewn y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael (h.y. newid cyfeiriad) hefyd olygu y caiff y cais ei drin fel un hwyr os dygir y newidiadau hyn i

sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ar sail disgresiwn amgylchiadau newid annisgwyl o ran cyfeiriad cyn penderfynu y caiff cais ei drin fel un hwyr. Yn anffodus dim ond os rhoddir hysbysiad o newid cyfeiriad ddim mwy na 6 wythnos cyn y dyddiad cynnig a gyhoeddwyd er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried ar gyfer dibenion dyrannu y gellir gweithredu disgresiwn o'r fath.

Caiff ceisiadau hwyr eu casglu a'u prosesu'n fisol, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi yn seiliedig ar y mis y cânt eu derbyn. Mae amserlen ar gyfer prosesu ceisiadau hwyr ar gyfer cylch derbyn 2022/23 isod:

| | Mis y daeth y cais i law | Penderfyniad yn cael ei hysbysu i Rieni |
|---|---|---|
| Gweithredol ar gyfer Uwchradd yn unig | 24ain Tachwedd 2022 – 11eg Ionawr 2023 | 31ain Mawrth 2023 |
| Gweithredol ar gyfery Cynradd a'r Uwchradd | 12fed Ionawr – 31ain Ionawr 2023 | 5ed Mai 2023 (Cynradd)<br>7fed Ebrill 2023 (Uwchradd) |
| | Chwefror 2023 | 5ed Mai 2023 (Cynradd)<br>15fed Ebrill 2023 (Uwchradd) |
| | Mawrth 2023 | 12fed Mai 2023 |
| | Ebrill 2023<br><br>Mai 2023 | 26ain Mai 2023<br><br>2ail Mehefin 2023 |
| | Mehefin 2022 | 7fed Gorffennaf 2023 |
| | Gorffennaf 2023 | 4ydd Awst 2023 |
| | 1af i'r 4ydd Awst 2023<br>5ed i'r 11eg Awst 2023 | 11eg Awst 2023<br>20fed Awst 2023 |
| | 12fed Awst ymlaen | O fewn 1 wythnos |

Os bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn yr ysgol a ffefrir, caiff lleoedd eu dyrannu yn unol â'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn ystod wythnos gyntaf y mis yn dilyn y mis derbyn. Hysbysir rhieni am ganlyniad eu ceisiadau erbyn diwedd yr wythnos honno.

Bydd y trefniadau ar gyfer ceisiadau hwyr yn parhau hyd wythnos olaf mis Awst. Ar ôl y dyddiad hwn, caiff unrhyw dderbyniadau a ddaw i law wedyn eu prosesu o fewn 1 wythnos.

## 17. HYSBYSU RHIENI

Caiff rhieni eu hysbysu am benderfyniad ar eu cais ar y dyddiad cynnig a gyhoeddir. Ar gyfer cylch derbyn ar gyfer cylch derbyn 2022/23, y dyddiad y caiff rhieni eu hysbysu am benderfyniadau ar eu ceisiadau fydd y 1$^{af}$ Mawrth 2023 (Uwchradd) a'r 17eg Ebrill 2023 (Cynradd).

Bydd unrhyw gynnig o le ysgol yn seiliedig ar i'r ymgeisydd fod yn byw yn y cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais fel ar y dyddiad cynnig a gyhoeddir. Mae'n rhaid i rieni sy'n

gwybod cyn y dyddiad cynnig eu bod yn annhebyg o barhau i fyw yn y cyfeiriad a nodir ar eu cais ein hysbysu, fel y gellir newid eu cais.  Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir yn ddiweddarach nad dyma'r achos.

Lle bo rhieni yn dweud wrthym, adeg gwneud cais, eu bod yn symud tŷ ac yn rhoi tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol i ddilysu'r symud yma, byddai unrhyw gynnig o le ysgol ar y sail yma'n amodol ar i'r ymgeisydd fod yn breswylydd yn y cyfeiriad newydd ar yr adeg mae'r plentyn dan sylw yn dechrau yn yr ysgol. Gellid dileu unrhyw gynnig o le ysgol os canfyddir yn ddiweddarach mai nid dyma'r achos.

## 18. DERBYN LLE YSGOL

Pan dderbynnir cynnig am le ysgol, mae'n ofynnol i rieni hysbysu'n ysgrifenedig eu bod yn derbyn y lle ysgol o fewn 14 diwrnod o'r hysbysiad am gynnig y lle ysgol. Gallai methiant i wneud hynny olygu y caiff y cynnig o le ysgol ei ddileu.

## 19. DERBYN I GRWPIAU BLWYDDYN ERAILL – MEDI 2023

Lle derbynnir ceisiadau ar gyfer newid ysgol ym Medi 2023, i grwpiau blwyddyn heblaw blwyddyn arferol derbyn, ni chaiff y rhain eu hystyried tan ddechrau ail hanner tymor yr haf h.y. ar ôl gwyliau'r Sulgwyn. Caiff rhieni eu hysbysu ddim hwyrach na 4 wythnos cyn diwedd blwyddyn academaidd 2023.

Caiff y ceisiadau hyn eu cyfrif ar sail fisol a'u prosesu yn ôl y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, pe byddai nifer y ceisiadau a dderbynnir yn fwy na'r nifer o leoedd ar gael. Fodd bynnag, dylid nodi y rhoddir blaenoriaeth i'r rhieni hynny sy'n ceisio lle yn ystod y tymor cyfredol yn hytrach na'r flwyddyn academaidd newydd.

## 20. TROSGLWYDDO O FEWN BLWYDDYN (DERBYNIADAU TU ALLAN I'R CYLCH DERBYN ARFEROL)

Mae trosglwyddo o fewn blwyddyn yn cyfeirio at geisiadau gan rieni i drosglwyddo eu plant rhwng ysgolion tu allan i'r cylch derbyn arferol. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried ceisiadau nes bod y dyddiad dechrau ddim mwy na thymor ymlaen llaw.

Caiff pob cais am drosglwyddo o fewn blwyddyn eu trin yn nhrefn y dyddiad y'u derbynnir, a lle derbynnir mwy o geisiadau ar yr un diwrnod na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael eu gweithredu i benderfynu pa blentyn/plant a gaiff gynnig lle.

Fel arfer caiff ceisiadau eu prosesu o fewn 7 diwrnod gwaith o'u derbyn. Fodd bynnag mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle dynodwyd fod gan blentyn

anghenion penodol, efallai na fydd yn bosibl prosesu'r derbyniad o fewn yr amserlen. Hysbysir y rhiant am hyn.

Fel rhan o'r broses ystyried, bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu ag ysgol gyfredol y plentyn i gael gwybodaeth i'w rhannu gyda'r ysgol sy'n derbyn. Mae hyn er mwyn sicrhau fod yr ysgol a ffefrir mewn sefyllfa i gefnogi trosglwyddo priodol rhwng ysgolion.

Ar achlysuron lle mae'r cais am dderbyn i drosglwyddo ysgolion yn un nad yw'n codi o symud i ardal, neu le nad oes angen ar unwaith ar gyfer trosglwyddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried derbyn o ddechrau tymor ysgol er mwyn lleihau'r ymyriad posibl i'w haddysg eu plant eu hunain a phlant eraill.

Caiff lleoedd a ddyrannwyd eu cadw'n agor am gyfnod o 1 tymor o ddyddiad derbyn awdurdodedig, ac ar ôl hynny gall y lle gael ei ddileu os nad yw'r plentyn wedi cymryd eu lle yn ystod y cyfnod hwn. Unwaith y cynigiwyd lle ysgol, bydd gan ysgolion 7 diwrnod gwaith i drefnu ymrestru'r plentyn dan sylw pan fo angen dechrau ar unwaith.

Os derbynnir cais ar gyfer Plentyn sy'n Derbyn Gofal, yn unol â'r protocol a drefnwyd gydag ysgolion, trefnir cyfarfod Plentyn sy'n Derbyn Gofal a gwahoddir pob parti sydd â diddordeb. Cyn y cyfarfod yma, mae angen i'r awdurdod lleoli rannu gwybodaeth berthnasol yn cynnwys y Cynllun Addysg Personol, cofnodion ysgol a'r Datganiad o Anghenion Addysgol, os oes un gan y plentyn.

Lle mae'r cais am dderbyn i'r ysgol fel canlyniad o symud i'r sir, mae angen i'r rhiant anfon tystiolaeth o breswyliaeth. Ni chaiff y cais ei brosesu neu ei ystyried fel cyflawn hyd y derbynnir y dystiolaeth hon. Tystiolaeth addas fyddai copi o gyfnewid contractau neu gytundeb tenantiaeth hirdymor. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw rhieni'n gwneud cais ormod ymlaen llaw cyn symud ac felly yn gwadu lle i eraill sydd angen derbyn yn gyflymach.

## 21. CAIS AM DDERBYN TU ALLAN I GRŴP BLWYDDYN CRONOLEGOL

Polisi'r Awdurdod Lleol yw y caiff plant eu derbyn i'w grŵp blwyddyn cronolegol. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi derbyn i grŵp blwyddyn nad yw o fewn y flwyddyn gronolegol, er enghraifft, lle mae sylfaen tystiolaeth briodol (e.e. adroddiad gan Seicolegydd Addysg) sy'n awgrymu nad yw'r grŵp blwyddyn cronolegol yn gallu cyflawni anghenion y plant dan sylw yn addas.

Rhoddir cyfle i rieni sy'n cyflwyno cais am dderbyn i grŵp blwyddyn nad yw o fewn y flwyddyn gronolegol ar gyfer eu plentyn i rannu eu rhesymau dros y cais gyda'r Awdurdod Lleol. Ymgynghorir hefyd â Phennaeth yr ysgol a ffefrir yn ystod y broses a chaiff y sylwadau hynny eu hystyried fel rhan o'r broses benderfynu.

Bydd gan rieni y gwrthodir lle iddynt yn yr ysgol a ffefrir hawl statudol i apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed, fodd bynnag nid oes apêl yn erbyn penderfyniad i gynnig lle yn y dewis ysgol ond nid o fewn y grŵp blwyddyn a ddymunir.

## 22. GWRTHOD DERBYN I'R YSGOL A FFEFRIR

Dyrennir lleoedd i fwyafrif disgyblion Sir Fynwy yn newis ysgol gyntaf eu rhieni. Gwrthodir derbyn i ysgol yn unol â Chod Ymarfer Derbyn Ysgolion 2013 ac mae'n seiliedig ar y penderfyniadau dilynol;

- P'un a fyddai derbyn plentyn yn llesteirio darpariaeth addysg effeithiol neu ddefnydd effeithiol o adnoddau
- Lle cyrhaeddwyd y Nifer Derbyn
- Rheoliadau maint dosbarth Llywodraeth Cymru

Os nad yw'n bosibl dyrannu lle yn yr ysgol a ffefrir, cynigir lle mewn ysgol arall. Bydd hyn un ai'n ddewis arall (a nodwyd ar y ffurflen gais) neu'r ysgol nesaf agosaf sydd ar gael. Mater i rieni wedyn yw penderfynu p'un ai i dderbyn lle yn yr ysgol arall ai peidio.

Os cynigir lle yn yr ysgol agosaf sydd ar gael, gall y plentyn dan sylw fod â hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol os cyflawnir y meini prawf ar gyfer pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Mae mwy o wybodaeth ar hawl cludiant cartref i ysgol yn y polisi cludiant cartref i ysgol.

Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw rhieni eisiau lle yn yr ysgol agosaf sydd ar gael a chânt fanylion ysgolion eraill gyda lleoedd ar gael o fewn yr ardal. Yn yr amgylchiadau hyn, <u>ni</u> fyddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu fel arfer.

Yn dilyn gwrthod lle ysgol, caiff manylion y plentyn eu cadw ar restr aros tan 31 Awst y flwyddyn academaidd y maent yn gwneud cais amdani. Os daw unrhyw leoedd yn ôl ar gael yn ystod y cyfnod yma, caiff lleoedd eu dyrannu o'r rhestr aros fel yn y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

## 23. RHESTRAU AROS

Ar gyfer yr ymgeiswyr hynny a fu'n aflwyddiannus yn cael lle yn eu dewis ysgol(ion), caiff rhestrau aros eu cadw hyd ddiwedd y flwyddyn academaidd y gwnaed y cais amdani. Ar ôl y cyfnod hwnnw, caiff y rhestrau aros presennol eu clirio a bydd angen cais newydd. Caiff manylion y plentyn eu hychwanegu'n awtomatig i'r rhestr aros am yr ysgol/ysgolion a ffefrir ar adeg y gwrthod.

Rhoddir blaenoriaeth i restri aros yn ôl y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael ac ni fydd yn seiliedig ar ddyddiad cyflwyno'r cais. <u>**Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw hysbysu'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y meini prawf pan fo mwy o**</u>

**geisiadau nag o leoedd ar gael ac felly le eu plentyn ar y rhestr aros. Byddai newid cyfeiriad yn enghraifft o hyn.**

Os daw lle ar gael yn y dewis ysgol(ion), caiff y rhestr aros ei "rhewi" er mwyn galluogi'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr i lenwi'r lle gwag. Caiff dyddiad rhewi'r rhestr aros ei benderfynu fel y dyddiad y mae'r Awdurdod Lleol yn fodlon fod y lle'n dod ar gael.

Bydd yr Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn cysylltu â'r rhiant dan sylw o fewn 7 diwrnod gwaith o'r lle yn dod ar gael, os yw eu plentyn yn cymhwyso ar gyfer ystyried y lle. Rhoddir 7 diwrnod i'r rhiant dderbyn neu wrthod yn ysgrifenedig yn ffurfiol y cynnig o le ysgol. Ar ôl yr amser hwnnw, caiff enw'r plentyn ei dynnu o'r rhestr aros a chynigir y lle i'r plentyn nesaf ar y rhestr aros, gan y bydd yr Awdurdod Lleol yn tybio nad oes angen y lle mwyach.

## 24. APELIADAU

Yn unol â Chod Ymarfer Derbyn Ysgolion a Chod Ymarfer Apeliadau Derbyn Ysgolion 2013, bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud trefniadau i alluogi rhiant plentyn i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod lle yn y dewis ysgol.

Caiff yr apêl ei phenderfynu gan Banel Apeliadau a sefydlwyd yn unol â chod Apeliadau Derbyn Ysgolion 2013. Mae'n rhaid i'r panel gynnwys tri i bum aelod a benodwyd gan yr Awdurdod Lleol o'r categorïau dilynol:

- Pobl sy'n gymwys i fod yn aelodau lleyg (pobl heb brofiad personol mewn rheoli ysgol neu ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol, heb ystyried profiad fel llywodraethwr neu unrhyw swydd wirfoddol arall).
- Pobl sydd â phrofiad mewn addysg; sy'n gyfarwydd â'r amodau addysgol yn ardal yr Awdurdod Lleol neu sy'n rhieni plant sydd wedi cofrestru mewn ysgol (heblaw'r ysgol lle gwneir yr apêl).

Mae'n rhaid i Baneli Apêl Annibynnol ystyried pob achos yn unigol ar ei haeddiant ei hun ac ni allant gyfyngu eu hunain, ymlaen llaw, i dderbyn unrhyw nifer benodol o ddisgyblion.

Dylai ystyriaeth gan Banel Apêl fod mewn dau gam penodol:

A) Y Cam Ffeithiol, lle mae'r panel yn penderfynu fel mater o ffaith os oedd rheswm cyfreithiol dros wrthod derbyn; os nad oedd, mae'n rhaid derbyn y plentyn; os oedd, mae'n rhaid i'r pwyllgor symud ymlaen i:
B) Y Cam Cydbwyso, lle mae'r panel yn gweithredu ei farn i gydbwyso maint y rhagfarn i addysg effeithiol a fyddai'n ganlyniad derbyn y plentyn, a chryfder achos y rhieni, er mwyn cyrraedd penderfyniad sy'n rhwymo'r awdurdod derbyn.

Bydd penderfyniad y panel apêl yn rhwymo'r Awdurdod Lleol.

## 24.1 Amserlen ar gyfer clywed apeliadau

Bydd rhieni yn derbyn llythyr yn gwrthod derbyn a chânt eu cynghori am eu hawl apelio. Nid yw'r penderfyniad i apelio yn atal y rhiant/gofalwr rhag derbyn lle mewn ysgol arall tra bod y gwrandawiad yn cael ei drefnu, gan y bydd y panel yn penderfynu ar yr apêl ar sail cais.

Caiff Gwrandawiadau Apêl eu cynnull gan gynrychiolydd y Prif Swyddog Gweithredol a chânt eu clywed o fewn 30 diwrnod ysgol o ddyddiad y cais am apelio.

# 25. CYNLLUN MAINT DOSBARTH BABANOD

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yng Nghyfnod Allweddol 1 mewn dosbarth lle mae'r gymhareb disgybl athro yn fwy na 1:30. Roedd y Cynllun Maint Dosbarth Babanod yn rhaglen a gyflwynwyd mewn camau rhwng Medi 1999 a Medi 2001 gan felly sicrhau y caiff pob plentyn hyd 7 oed eu haddysgu mewn dosbarthiadau nad oedd yn cynnwys mwy na 30 disgybl.

Cododd dau brif newid o'r ddeddfwriaeth maint dosbarth. Yn gyntaf, ni fydd angen i awdurdodau derbyn dderbyn plentyn i ddosbarth babanod os byddai gwneud hynny'n arwain at i ddosbarth fod yn gweithredu ar gymhareb disgybl/athro o fwy na 30:1.

Gall awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol lle byddai gwneud hynny yn golygu fod angen i'r ysgol gymryd 'mesurau cymhwyso' (h.y. cyflogi athro ychwanegol, adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol) i gyflawni'r terfyn maint dosbarth statudol.

Yn ail, wrth ddelio gydag apeliadau derbyn dan ddeddfwriaeth maint dosbarth, nid yw Paneli Apêl yn dilyn y broses ddau gam a amlinellir uchod.

Yn lle hynny, dim ond os oherwydd bod penderfyniad i beidio derbyn y plentyn oherwydd trefniadau derbyn yn cael ei weithredu'n anghywir neu os nad oedd penderfyniad yr awdurdod derbyn yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud yn yr achos neilltuol hwnnw y gall Panel Apêl gadarnhau apêl rhiant.

## 25.1 Eithriadau i'r rheoliadau maint dosbarth babanod

Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gyfyngu meintiau dosbarth babanod i ddim mwy na 30 disgybl ac i sicrhau nad yw dosbarthiadau iau yn fwy na 30 disgybl. Fodd bynnag mae eithriadau i'r rheoliadau hyn (a elwir yn "ddisgyblion a eithrir") a all ganiatáu torri'r terfyn o ddosbarth 30 disgyblion. Disgyblion a eithrir yw:

1. Plant y mae eu datganiadau AAA yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw ac a gaiff eu derbyn i'r ysgol tu allan i gylch derbyn arferol.

2. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, neu sydd wedi peidio derbyn gofal oherwydd iddynt gael eu mabwysiadu neu gael eu lleoli gyda theulu neu roddwyd gwarcheidwad arbennig iddynt ac a gaiff eu derbyn tu allan i gylch derbyn arferol.

3: Plant y gwrthodwyd mynediad iddynt i ysgol i ddechrau, ond y cynigiwyd lle iddynt yn ddilynol tu allan i'r cylch derbyn arferol drwy gyfarwyddyd panel apêl derbyn, neu oherwydd bod y person oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod y gwnaed camgymeriad wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.

4: Plant a dderbyniwyd tu allan i'r cylch derbyn arferol:

- y cadarnhaodd yr Awdurdod Lleol cynnal na allant sicrhau lle mewn unrhyw ysgol arall addas o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod wedi symud i'r ardal tu allan i gylch derbyn arferol, neu
- eu bod yn dymuno cael addysg grefyddol neu addysg Gymraeg ac mai'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.

5: Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol ar ôl i'r ysgol drefnu ei dosbarthiadau, ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, a byddai effaith hynny'n golygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd mesur perthnasol os nad oedd plant yn ddisgyblion eithriedig.

6. Plant personél lluoedd arfog a dderbyniwyd tu allan i'r cylch derbyn arferol.

7. Plant y caiff eu gefail neu frawd neu chwaer o enedigaeth luosog eu derbyn fel disgyblion heb eu heithrio, fel y disgybl(ion) olaf y dyrannwyd lle iddynt cyn cyrraedd y nifer derbyn.

8. Plant sydd wedi cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.

9. Plant gydag Anghenion Addysgol Arbennig a gaiff fel arfer eu haddysgu mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, sy'n derbyn rhai o'u gwersi mewn dosbarth heb fod yn arbennig.

## 26. TERFYN MAINT DOSBARTH CYFNOD ALLWEDDOL 2

Er nad oes rheoliadau i gyfyngu meintiau dosbarth i 30 yng Nghyfnod Allweddol 2, mae gan yr Awdurdod Lleol ymrwymiad i gydymffurfio gyda tharged Llywodraeth Cymru i sicrhau cadw cymhareb disgybl athro 1:30 yng Nghyfnod Allweddol 2.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**CYFARWYDDIAETH PLANT A PHOBL IFANC**

**CYNLLUN DERBYN CYDLYNOL YSGOLION CYNRADD AR GYFER MEDI 2023**

**CYFLWYNIAD**

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i bob awdurdod derbyn yn yr ardal (Awdurdod Lleol ac Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol) o ran rhieni â phlant sy'n dymuno ymuno â'r flwyddyn fynediad arferol mewn ysgol gynradd a gynhelir yn Sir Fynwy o fis Medi 2023. (Ceir rhestr termau hefyd yn Atodiad C).

Gwahoddir pob rhiant i fynegi dewis ar ffurflen gais gyffredin, waeth beth yw statws yr ysgolion y maent am wneud cais amdanynt ac a yw'r ysgol o fewn / tu allan i'r sir. Bydd y ffurflen yn rhoi cyfle i rieni/gofalwyr roi rhesymau dros eu dewisiadau. Dylid anfon yr holl ffurflenni wedi'u llenwi'n uniongyrchol i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr. **Eithriad i hyn yw os yw rhieni yn dymuno gwneud cais am Ysgol o fewn ffiniau Cyngor Dinas Casnewydd - mewn amgylchiadau o'r fath mae'n ofynnol i'r rhiant wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd o dan eu trefniadau derbyn.**

Er y gall awdurdodau derbyn ysgolion unigol (a Gynorthwyir yn Wirfoddol) ofyn i chi gwblhau eu ffurflenni derbyn eu hunain, rhaid i bob ymgeisydd gwblhau "Ffurflen Gais Gyffredin" hefyd.

Bydd disgyblion sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig/Cynllun Datblygu Unigol yn cael eu derbyn i'r ysgol a enwir ar eu Datganiad.

**1. Ystyried Ceisiadau a Dyrannu Lleoedd (Cylch Derbyn Arferol)**

Wrth gymhwyso'r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu pwy sydd i gael lleoedd, bydd pob dewis rhiant yn cael ei ystyried yn gyfartal a'i ddyrannu yn unol â'r meini prawf isod. Cynigir yr ysgol flaenoriaeth uchaf os bydd modd bodloni un neu ragor o ddewisiadau.

Os na ellir diwallu unrhyw un o'r dewisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau y gellir cynnig cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl.

Y dyddiad cau ar gyfer cam cyntaf y ceisiadau yw **5pm ar 11eg Ionawr 2023** a rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad pob cais drwy'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr erbyn **17eg Ebrill 2023.**

Os yw rhiant yn gwneud cais am le y tu allan i Sir Fynwy, bydd yr Awdurdod y maent wedi gwneud cais iddo yn hysbysu'r rhiant a Sir Fynwy o'r penderfyniad i gynnig neu wrthod.

Bydd ceisiadau hwyr neu newidiadau i'r drefn o ddewis yn cael eu hystyried ar ôl i'r cam cyntaf gael ei gwblhau.  Pan fo rhiant yn mynegi dewis o fewn y cam cyntaf ac yna'n newid dewis ar ôl hanner nos ar ôl 5pm ar 11eg Ionawr 2023, caiff hwn ei ystyried fel cais hwyr.

Yn yr un modd, bydd ceisiadau lle mae newid amgylchiadau wedi digwydd, a fydd yn cael effaith ar statws y cais o fewn y meini prawf perthnasol, yn golygu bod y cais yn cael ei drin fel un hwyr os bydd y newidiadau hyn yn dod i sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

## AMSERLEN AR GYFER DERBYNIADAU CYDLYNOL YSGOLION CYNRADD AR GYFER MEDI 2023

### YSGOLION CYNRADD (gan gynnwys Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol)

2.1  Cam 1

| | |
|---|---|
| Ceisiadau ar gael i rieni | 2ail Tachwedd 2022 |
| Derbyn ceisiadau naill ai ar bapur neu ar-lein | Erbyn 11eg Ionawr 2023 |
| Manylion y ceisiadau a anfonwyd i Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol ac Awdurdodau Lleol eraill, fel y bo'n briodol.  Dychwelyd manylion y ceisiadau a wnaed i Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr. | Erbyn 20fed Ionawr 2023 |
| Mae Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol ac Awdurdodau Lleol cyfagos yn dychwelyd rhestrau o ddisgyblion i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr sy'n nodi'r maen brawf gordanysgrifio y mae pob plentyn wedi'i ystyried o dan a chanfod gwrthod. | Erbyn 3ydd Mawrth 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr / Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn dyrannu'r lle dewis gorau sydd ar gael ac yn hysbysu'r Awdurdodau Eraill, fel y bo'n briodol | Erbyn 24ain Mawrth 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn dyrannu lleoedd i blant Sir Fynwy heb gynnig | Erbyn 3ydd Ebrill 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn anfon rhestr o ddisgyblion i gael cynnig lle i bob Ysgol Sir Fynwy. | Erbyn 10fed Ebrill 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr / Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol yn anfon hysbysiadau i rieni / gofalwyr | Ar 17eg Ebrill 2023 |
| Apeliadau | Mai – Gorffennaf 2023 |

Cam 2

Yn dilyn cam cyntaf y dyraniadau, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried a'u derbyn lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu trin cyn **17eg Ebrill 2023.**

Ar y cam hwn, bydd rhieni / gofalwyr yn gallu gwneud cais am ail-ystyriaeth o ysgol a nodwyd yn uwch ganddynt ar eu rhestr dewis na'r un a gynigiwyd iddynt.

Bydd prosesu ceisiadau hwyr yn cael ei wneud bob mis, felly, er enghraifft, caiff ceisiadau a dderbynnir yn Ebrill 2023 eu casglu a'u prosesu yn ystod yr wythnos lawn gyntaf ym Mai 2023 gydag ysgolion a rhieni yn cael eu hysbysu erbyn diwedd yr ail wythnos lawn. Bydd y rhain yn cael eu prosesu yn ôl y meini prawf pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

## Atodiad B – Cynllun Derbyn Cydlynol Ysgolion Uwchradd

**CYFLWYNIAD**

Bydd y cynllun hwn yn berthnasol i bob ysgol yn yr ardal ar gyfer rhieni â phlant sy'n dymuno ymuno â'r flwyddyn fynediad arferol mewn ysgol uwchradd yn Sir Fynwy o fis Medi 2023.

Gwahoddir pob rhiant i nodi tri dewis ar ffurflen gais gyffredin, waeth beth yw statws yr ysgolion y maent am wneud cais amdanynt ac a yw'r ysgol o fewn / tu allan i'r sir. Bydd y ffurflen yn rhoi cyfle i rieni / gofalwr roi rhesymau dros eu dewisiadau. Dylid dychwelyd yr holl ffurflenni trosglwyddo uwchradd yn uniongyrchol i'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr**.** **Eithriad i hyn yw os yw rhieni yn dymuno gwneud cais am Ysgol o fewn ffiniau Cyngor Dinas Casnewydd - mewn amgylchiadau o'r fath mae'n ofynnol i'r rhiant wneud cais yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd o dan eu trefniadau derbyn.**

Bydd disgyblion sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu derbyn i'r ysgol a enwir ar eu Datganiad.

**Ystyried Ceisiadau a Dyrannu Lleoedd (Cylch Derbyn Arferol)**

Wrth weithredu’r meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael i benderfynu pwy sydd i gael lleoedd, bydd pob dewis rhiant yn cael ei ystyried yn gyfartal a'i ddyrannu yn unol â'r meini prawf yn Atodiad 1. Cynigir yr ysgol blaenoriaeth uchaf os bydd modd bodloni un neu ragor o ddewisiadau.

Os na ellir diwallu unrhyw un o'r dewisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, y gellir cynnig yn yr Ysgol agosaf agosaf sydd ar gael.

Y dyddiad cau ar gyfer y cylch cyntaf o geisiadau yw **5pm ar 23ain Tachwedd 2022** a rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad pob cais o fewn y sir trwy'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr ar **1af Mawrth 2023.**

I gael dewisiadau i fynychu ysgol y tu allan i Sir Fynwy, rhoddir hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad i gynnig / gwrthod lle yn yr ysgol a ffefrir gan yr Awdurdod Lleol / Awdurdod Derbyn perthnasol yn unol â'u dyddiad cynnig.

Bydd Sir Fynwy yn ystyried unrhyw gynnig a wneir gan Awdurdod Lleol arall. Os bydd yr Awdurdod Lleol arall yn gallu cynnig ysgol sydd â ffafriaeth uwch, ni fydd Sir Fynwy yn gwneud cynnig.

Bydd ceisiadau hwyr neu newidiadau o drefn dewis yn cael eu hystyried ar ôl i'r cam cyntaf gael ei gwblhau. Os yw rhiant yn mynegi dewis o fewn y cam cyntaf ac yna'n newid ffafriaeth ar ôl **23ain Tachwedd 2022,** caiff hwn ei ystyried fel cais hwyr.

Bydd ceisiadau lle mae newid amgylchiadau wedi digwydd, a fydd yn cael effaith ar statws y cais o fewn y meini prawf gordanysgrifio, yn golygu bod y cais yn cael ei drin fel un hwyr os bydd y newidiadau hyn yn dod i sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

**AMSERLEN AR GYFER DERBYNIADAU CYDLYNOL YSGOLION UWCHRADD AR GYFER MEDI 2023**

Cam 1

| | |
|---|---|
| Ceisiadau ar gael i Rieni | 21ain Medi 2022 |
| Derbyn y Ceisiadau | Erbyn 23ain Tachwedd 2022 |
| Manylion y ceisiadau yn cael eu hanfon i ysgolion Sir Fynwy ac Awdurdodau Lleol eraill, fel y bo'n briodol | Erbyn 2ail Rhagfyr 2022 |
| Ymgynghori ag Awdurdodau Lleol cyfagos ar ddewisiadau trawsffiniol | Erbyn 16eg Rhagfyr 2022 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn dyrannu'r lle a ffafrir gorau sydd ar gael ac yn hysbysu Awdurdodau Lleol eraill, fel sy'n briodol | Erbyn 3ydd Chwefror 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn dyrannu lleoedd i blant Sir Fynwy heb gynnig | Erbyn 10fed Chwefror 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn anfon rhestr o ddisgyblion i gael lleoedd i bob ysgol yn Sir Fynwy | Ar 17ef Chwefror 2023 |
| Mae'r Uned Ysgolion a Derbyn Myfyrwyr yn anfon hysbysiadau i rieni / gofalwyr | Ar 1af Mawrth 2023 |
| Apeliadau | Mai – Gorffennaf 2023 |

Cam 2

Yn dilyn cylch cyntaf y dyraniadau, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried a'u slotio lle bo hynny'n bosibl gan ddefnyddio'r meini prawf derbyn. Nid oes sicrwydd y caiff ceisiadau hwyr eu trin cyn **1af Mawrth 2023**.

Cynhelir prosesu ceisiadau hwyr bob mis, felly bydd ceisiadau a dderbynnir ym mis Ebrill 2023 yn cael eu casglu a'u prosesu yn ystod yr wythnos lawn gyntaf ym mis Mai 2023 gydag ysgolion a rhieni / gofalwyr yn cael eu hysbysu erbyn diwedd yr ail wythnos lawn. Bydd y rhain yn cael eu prosesu yn ôl y meini prawf ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael.

## Atodiad C – Awdurdodau Derbyn

- Cyngor Sir Fynwy
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol (Sir Fynwy)
  - Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams
  - Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Magwyr
  - Ysgol Gynradd Gatholig Mair Forwyn a Mihangel Sant
  - Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Cas-gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Swydd Caerloyw
- Cyngor Sir Swydd Henffordd
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Ysgol Sylfaen Brynmawr
- Ysgol Gatholig Alban Sant
- Ysgol Gatholig Sant Joseff

Geirfa

| | |
|---|---|
| Blwyddyn Mynediad Arferol | Y flwyddyn y mae disgybl wedi'i drefnu i ddechrau / newid ysgol |
| Ysgol a Gynhelir | Ysgol a gynhelir naill ai gan yr Awdurdod Lleol neu'r Esgobaeth |
| Cais Gyffredin | Ffurflen wedi'i hargraffu ymlaen llaw gyda manylion y disgybl a'r rhif cyfeirnod disgybl unigryw |

## Atodiad Ch - Niferoedd Derbyn ar gyfer Ysgolion

**Uwchradd**

| YSGOL | Capasiti | Rhifau Derbyn |
|---|---|---|
| Ysgol Cil-y-coed | 1500 | 253 |
| Ysgol Cas-gwent | 1282 | 193 |
| Ysgol Uwchradd Brenin Harri VII | 1290 | 216 |
| Ysgol Uwchradd Trefynwy | 1676 | 270 |

| YSGOL | Capasiti | Rhifau Derbyn |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru yr Archesgob Rowan Williams | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Cantref | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Castle Park | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Cross Ash | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Deri View | 330 | 47 |
| Ysgol Gynradd Dewstow | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Durand | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gilwern | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Goetre Fawr | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Kymin View | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Llanddogo | 111 | 15 |
| Ysgol Gynradd Llan-ffwyst | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llandeilo Bertholau | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Llanfihangel Crucornau | 77 | 11 |
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Magwyr | 317 | 55 |
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Mair Forwyn a Mihangel Sant | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Overmonnow | 390 | 55 |
| Ysgol Gynradd Pembroke | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Rhaglan | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Rogiet | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd y Drenewydd Gelli-farch | 210 | 30 |
| Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair | 210 | 30 |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd The Dell | 420 | 60 |
| Ysgol Gynradd Thornwell | 330 | 47 |
| Ysgol Gynradd Tryleg | 180 | 25 |
| Ysgol Gynradd Gwndy | 359 | 51 |
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga | 300 | 40 |
| Ysgol Gymraeg y Fenni | 317 | 45 |
| Ysgol y Ffin | 180 | 25 |
| | 7073 | |